Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau
Ffordd Castellau
Beddau
Pontypridd
Rhondda Cynon Taf
CF38 2AA

11/05/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Ebrill 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas â dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Yn ystod yr ymweliad, cawsom gyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad ag arweinwyr, disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Darparu cyfleoedd cynhwysfawr i ddisgyblion ddatblygu pob agwedd o'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol

- Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi manteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol pwrpasol drwy gydweithio ag ysgolion cyfagos a'r ysgol uwchradd leol i ddatblygu dealltwriaeth gytûn o'r fframwaith digidol.
- Maent wedi mapio cyfleoedd pwrpasol i gefnogi disgyblion i ddatblygu ystod lawn o fedrau digidol yn gyson dros amser.
- Drwy weithgareddau monitro rheolaidd, mae arweinwyr yn gwerthuso pa mor effeithiol mae athrawon yn cyflwyno'r holl fedrau angenrheidiol, i'r safon ddisgwyliedig yn gyson i'r disgyblion.
- Mae athrawon yn cydweithio'n bwrpasol i rannu arferion da. Mae hyn yn meithrin gallu a dealltwriaeth athrawon i ddefnyddio a chyflwyno ystod eang o feddalwedd digidol yn effeithiol. Mae hyn yn cefnogi'r disgyblion i ddatblygu eu medrau digidol yn effeithiol mewn ystod o gyd-destunau ac ar draws y meysydd dysgu a phrofiad.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Mae'r ysgol yn trefnu bod darparwyr allanol yn cyflwyno sesiynau arbenigol i ddisgyblion. Mae hyn yn hybu medrau digidol disgyblion yn gadarnhaol.

### Sicrhau cyfleoedd rheolaidd ac addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol

- Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi mynd i'r afael â'r argymhelliad yn briodol.
- Maent yn darparu dysgu proffesiynol bwriadus i staff er mwyn eu cefnogi i ddatblygu'r ddarpariaeth ar draws yr ysgol. Mae hyn yn caniatáu i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau dysgu annibynnol yn fwy effeithiol mewn cyd-destunau amrywiol.
- Mae arweinwyr wedi datblygu gweledigaeth gytûn gyda'r staff a siarter disgwyliadau a gweithdrefnau i hybu a datblygu annibyniaeth yn y dosbarthiadau. Mae hyn yn hybu cysondeb o ran dealltwriaeth a disgwyliadau cytûn i hyrwyddo annibyniaeth disgyblion ar draws yr ysgol.
- Yn dilyn gweithgareddau dysgu proffesiynol pwrpasol, mae staff y disgyblion ieuengaf yn darparu ardaloedd ysgogol i ddisgyblion ddysgu'n annibynnol a chymhwyso eu medrau yn llwyddiannus y tu fewn a thu allan i'r dosbarth.
- Mae athrawon y disgyblion hynaf wedi arbrofi gyda gwahanol ddulliau o hybu medrau annibynnol disgyblion. Mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn cael eu cefnogi'n bwrpasol drwy gymhwyso eu medrau law yn llaw â chynyddu annibyniaeth disgyblion.
- Bellach, mae arweinwyr ac athrawon yn gweithio i gysoni'r ddarpariaeth ar draws yr ysgol er mwyn datblygu medrau dysgu annibynnol disgyblion yn llawn ym mhob dosbarth.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6742359

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol